Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
3/2016

www.cymru.gov.uk

# ADOLYGIAD O BROSIECT I ANNOG ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r papur hwn yn adrodd ar astudiaeth o brosiect peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n annog addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

1.2 Mae'r prosiect, a gyflwynir mewn dwy ardal rhwng 2013 a 2016, yn darparu cyrsiau i athrawon Cyfnod Allweddol 2 (CA2) a chymorth pellach er mwyn iddynt fabwysiadu methodoleg dysgu newydd. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn ystod haf a hydref 2014. Mae'r asesiad hwn wedi ei gynnal fel rhan o werthusiad llawn o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.3 Nod y prosiect yw gwella safonau Cymraeg ail iaith drwy gyflwyno methodoleg a fydd yn galluogi athrawon i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) o ran elfennau cwricwlaidd a gyflwynir drwy'r Gymraeg. Mae dwy ardal beilot sef ardal Llanisien, Caerdydd ac ardal Penarlâg, Fflint. Yr amcanion yw cynyddu darpariaeth Cymraeg ail iaith i:

- holl ddysgwyr blwyddyn 3 (ar draws yr 11 ysgol sy'n rhan o'r prosiect) yn ystod y flwyddyn ysgol 2012-13;
- holl ddysgwyr blynyddoedd 3 a 4 yn ystod 2013-14;
- holl ddysgwyr blynyddoedd 3, 4 a 5 yn ystod 2014-15; ac
- ym mlwyddyn olaf y prosiect (2015-2016) holl ddysgwyr blynyddoedd 3, 4, 5 a 6, h.y. Cyfnod Allweddol 2 i gyd.

1.4 Cynigir dau gwrs o dri diwrnod i athrawon CA2 mewn chwe ysgol gynradd yn nalgylch Llanisien, a phum ysgol ym Mhenarlâg. Mae'r cwrs tri diwrnod

cyntaf yn canolbwyntio ar gryfhau patrymau iaith yr athrawon tra bo'r ail gwrs yn canolbwyntio ar fethodoleg dysgu ac adnoddau. Mae'r cyrsiau'n cael eu cefnogi gan becyn adnoddau Y Pod-antur Cymraeg sy'n cynnwys DVD, llyfrau, taflenni gwaith, cardiau trafod a gêm ryngweithiol (sydd ar gael i'w prynu gan ysgolion).

1.5 Mae'r broses o gydlynu'r prosiect ychydig yn wahanol yn y ddwy ardal gyda Chonsortiwm Canolbarth y De yn gyfrifol yng Nghaerdydd ac un o ysgolion y prosiect yn cydlynu'r broses yn ardal Penarlâg gyda chefnogaeth ddilynol gan Gonsortiwm Gogledd Cymru.[1]

1.6 Mae'r prosiect yn un a ddatblygodd o Gynllun Datblygu Cymraeg Ail Iaith Llywodraeth Cymru, yn sgil trafodaethau rhwng swyddogion y Llywodraeth, ysgolion a swyddogion consortia dwy ardal yng Nghymru. Er bod nod y prosiect yn glir, mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y ffordd y mae'n cael ei gyflwyno. Nid oes gan y prosiect dargedau pendant ac mae prinder data yn golygu nad oes modd meintioli'r cynnydd yn llawn.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd arolwg athrawon ac ymweliadau â sampl o ysgolion yn y cyfnod Mehefin – Hydref 2014.[2] Anfonwyd holiadur electroneg at y 51 o athrawon oedd wedi mynychu o leiaf un o'r cyrsiau hyd at haf 2014. Derbyniwyd 20 ymateb o saith ysgol.[3] Ymwelwyd â phum ysgol, dwy yn y gogledd a thair yn y de, er mwyn cyfweld ag athrawon a rheolwyr. Rhwng yr ymweliadau a'r holiaduron casglwyd tystiolaeth gan wyth o'r 11 ysgol. Mae'r dystiolaeth yn y papur hwn felly yn seiliedig ar farn a gwybodaeth gan yr athrawon fu'n rhan o'r prosiect hyd yma a'u rheolwyr. Ceisiwyd casglu data ar gyrhaeddiad y dysgwyr ond nid oedd data ystyrlon, ar ffurf canlyniadau profion, ar gael ar y pryd ar gyfer y lefel a'r cyfnod perthnasol. Mae angen pwysleisio hefyd na fu pob ysgol sy'n rhan o'r prosiect yn rhan o'r astudiaeth hon, ac mae'n bosibl nad yw'r athrawon a atebodd yr holiadur yn nodweddiadol o'r garfan yn ei chyfanrwydd. Her arall yw priodoli'r canlyniadau i'r prosiect, gan bod y cyrsiau yn ychwanegol i'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl ysgolion o fewn y ddwy ardal dan sylw.[4]

[1] Ceir pedwar consortiwm addysg yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau rhanbarthol gwella ysgolion wedi eu comisiynu gan grŵp o awdurdodau lleol ar y cyd.

[2] Roedd yr holiadur yn holi'r athrawon am eu sgiliau Cymraeg, eu barn am y cwrs, a'u defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol cyn ac ar ôl y cwrs. Roedd yr ymweliadau yn gyfle i holi ymhellach ynghylch rôl Cymraeg ail iaith yn yr ysgol, faint o gefnogaeth oedd i'r prosiect, ac unrhyw newidiadau oedd wedi bod yn ei sgil.

[3] Derbyniwyd 24 ymateb gan gynnwys un o wythfed ysgol, ond dim ond y cwestiynau agoriadol oedd wedi eu hateb yn yr achos hwnnw. Dosbarthwyd yr holiaduron ar ebost. Yn y gogledd fe wnaeth yr un ysgol sy'n cydlynu anfon yr ebost at weddill yr ysgolion tra yn y de roedd modd i'r ymchwilwyr anfon ebost yn uniongyrchol at yr athrawon fu ar y cyrsiau. Aeth yr holiadur felly at y 51 o athrawon oedd wedi mynychu cyrsiau hyd at y pwynt hwnnw, er nad oes modd gwybod yn bendant faint o athrawon a dderbyniodd yr holiadur.

[4] Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn y consortia; cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i unrhyw ysgol, er enghraifft y Cynllun Sabothol ar gyfer hyfforddiant Iaith Gymraeg, a gwariant ar hyfforddiant ac adnoddau gan ysgolion a chonsortia dan Grant y Gymraeg mewn Addysg.

## 3. Canfyddiadau

3.1 **Gwelwyd amrywiaethau yng ngweinyddiaeth y cyrsiau hyfforddiant**. Derbyniodd ysgolion Caerdydd adnoddau ychwanegol i gefnogi defnydd o adnoddau'r Pod-antur Cymraeg gan yr hyfforddwraig, tra bod ysgolion y gogledd wedi cydweithio ar ddatblygu adnoddau newydd ac yn parhau i rannu ymhlith ei gilydd yr adnoddau maent wedi'u paratoi ers bod ar y cwrs. Yn y ddwy ardal mae hyfforddwyr ar gael ar ôl y cwrs i ddarparu cyngor ac yn y de maent yn gweithio'n agos gyda'r athrawon bro i barhau'r gefnogaeth. Fodd bynnag, teimlai rhai athrawon na fu digon o ymdrech i rannu deunyddiau cefnogol, ac ni fu rhannu adnoddau rhwng y ddwy ardal beilot. Yn y ddwy ardal roedd yr athrawon yn unfrydol yn eu canmoliaeth o'r cyrsiau ac o adnoddau'r Pod-antur Cymraeg.

3.2 **Adroddodd yr athrawon bod effaith sylweddol wedi bod ar eu hyder ieithyddol.** Atebodd yr holl ymatebwyr i'r holiadur a'r holl unigolion a gyfwelwyd fod cymryd rhan yn y cwrs iaith cychwynnol wedi gwella'u hyder a'u gallu yn y Gymraeg. Eglurodd rhai bod y cwrs wedi atgyfnerthu'r Gymraeg oedd ganddynt eisoes ('roedd y cwrs yn dda am eich atgoffa chi'), tra i eraill roedd yn fwy newydd ('nid oedd gennym ni'r eirfa na'r adnoddau o'r blaen'). Adroddodd holl ymatebwyr yr holiadur, ac eithrio un oedd heb farn, eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, ac mewn un ysgol roedd dau o'r athrawon wedi troi i siarad Cymraeg gyda'i gilydd o flaen y dosbarth.

> **Roedd profiad un ysgol o ardal Llanisien yn nodweddiadol:**
>
> Athro 1: "Cyn y cwrs roeddwn yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn tueddu i chwarae'n saff. Yr oeddwn yn darllen o'r PowerPoint, roedd y gwersi'n ddiflas a byddwn yn defnyddio'r un ymadroddion bob bore. Hwn oedd fy mhwnc gwanaf o bell ffordd. Roeddwn yn defnyddio Cymraeg lefel CA1 os ydw i'n onest. Nawr mae'r ansawdd a'r amrywiaeth o ymadroddion yn llawer gwell. Eisoes eleni [pythefnos mewn i'r tymor] rwyf wedi cofnodi sgyrsiau ac wedi gwneud tasg ysgrifennu."
>
> Athro 2: "Rydym yn gweithio'n gyflymach nawr. O'r blaen roeddwn yn cyflwyno un pwnc bob hanner tymor, er enghraifft 'dillad', a byddwn yn ymarfer yr un patrwm brawddegau am yr hanner tymor. Nawr rydym yn dysgu 'dillad' mewn dim ond un wythnos gyda'r Pod Antur ac erbyn yr ail wythnos wedi symud 'mlaen i ddysgu sgyrsiau ffôn 'ble rwyt ti?' [*Cyfieithiad i'r Gymraeg o'r Saesneg gwreiddiol*]

3.3 **Adroddodd yr athrawon bod cynnydd yn nifer y pynciau a addysgir drwy'r Gymraeg ynghyd â chynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y pynciau hynny** ar draws yr wyth ysgol lle casglwyd gwybodaeth. Dangosodd yr arolwg bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y defnydd o'r

Gymraeg ym mhob pwnc.[5] Gwelwyd y newid mwyaf wrth gyflwyno daearyddiaeth: adroddodd dau athro eu bod yn defnyddio'r iaith cyn y cwrs ond roedd cynnydd mawr wedi'r cwrs gyda 15 allan o 16 yn adrodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi daearyddiaeth. Roedd yr un patrwm yn wir, i raddau llai, ym mhob pwnc arall. Adroddodd naw (allan o 13) nad oeddynt yn defnyddio'r Gymraeg mewn llythrennedd cyn y cwrs ac wyth (allan o 11) mewn rhifedd. Wedi'r cwrs roedd pawb ac eithrio un o'r athrawon yn defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi rhifedd a llythrennedd.

3.4 Cefnoga'r dystiolaeth o'r ymweliadau y darlun hwn o gynnydd, gyda'r athrawon yn cynnig enghreifftiau o ddefnyddio'r Gymraeg, ac adnoddau'r Y Pod-antur Cymraeg yn benodol, ar draws y cwricwlwm. Roedd rhai ysgolion yn siapio'r gwersi ar sail pynciau ac eraill ar sail themâu, a dengys y dystiolaeth fod y prosiect wedi ehangu nifer y pynciau a'r themâu sy'n cael eu trafod yn y Gymraeg; er enghraifft nododd un athro: 'trafodon ni 'gwersylla' wythnos hon'. Baswn i byth wedi ystyried defnyddio'r eirfa yna o'r blaen!'

3.5 Eglurodd pedair o'r pum ysgol yr ymwelwyd â hwy bod y Gymraeg wedi ei chyfyngu i wersi byrion penodol cyn y prosiect ond erbyn hyn bod rhan o bob pwnc (neu thema) yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhannwyd enghreifftiau o lyfrau pwnc y dysgwyr gyda'r ymchwilwyr (sef gwaith ar thema wahanol bob hanner tymor) ac roedd hyd at hanner y cynnwys yn Gymraeg, a hynny am y tro cyntaf. 'Baswn i ddim wedi breuddwydio gwneud y siartiau a'r mapiau yn Gymraeg llynedd', eglurodd un athro.

3.6 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy **eglurodd yr athrawon bod mwy o Gymraeg achlysurol** yn cael ei ddefnyddio ers i'r prosiect gael ei gyflwyno. Eglurwyd hefyd bod y dysgwyr yn holi cwestiynau yn y Gymraeg yn ddigymell ac yn dangos chwilfrydedd at yr iaith wrth ddewis llyfr darllen Cymraeg neu chwilio am eirfa newydd yn y geiriadur. Awgrymodd un athro bod hyn yn ganlyniad i'r ffaith fod dysgwyr yn synhwyro hyder a brwdfrydedd yr athrawon, ac yn wir, 'nid yw'r Gymraeg yma nac acw mwyach, dyw'r disgyblion ddim yn meddwl amdano, mae jyst yn rhan o bopeth'.

3.7 **Defnyddir adnoddau'r Pod-antur Cymraeg mewn gwersi Cymraeg ac yn drawsgwricwlaidd** yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ac adroddodd athrawon pob ysgol bod y dysgwyr 'yn dwlu arno'. Wedi dweud hyn cyfeiriodd sawl ysgol at y ffaith bod symudiad wedi bod tuag at fwy o Gymraeg trawsgwricwlaidd yn y blynyddoedd diwethaf a bod cymryd rhan yn y prosiect wedi cyflymu newidiadau oedd eisoes wedi'u cynllunio yn

[5] Holwyd os oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth gyflwyno'r pynciau canlynol cyn ac ar ôl y cwrs: Gwyddoniaeth, Mathemateg, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Addysg Gorfforol, Celf a Dylunio, TGCh, Dylunio a Thechnoleg, Cerddoriaeth, Hanes, Llythrennedd a Rhifedd. Wedi'r cwrs roedd pob ymarferwr yn cynnig mwy o'r pynciau yn y Gymraeg ac roedd pob pwnc wedi gweld cynnydd yn nifer yr athrawon oedd yn defnyddio'r Gymraeg wrth ei gyflwyno.

hytrach na sefydlu arferion cwbl newydd.

3.8 **Adroddodd yr athrawon bod gwelliant mawr yng ngwaith llafar ac ysgrifenedig y dysgwyr.** Ni ddarparwyd data meintiol i alluogi dadansoddiad o draweffaith y prosiect ar sgiliau Cymraeg dysgwyr. Fodd bynnag adroddodd athrawon eu bod wedi arsylwi cynnydd sylweddol yn safon sgiliau Cymraeg y dysgwyr. Nododd ysgolion yn y ddwy ardal bod lefel Cymraeg dysgwyr Blwyddyn 5, oedd newydd gwblhau blwyddyn dan ofal athro a fu ar y cwrs, yn well na Blwyddyn 6. 'Rwy wedi gweld gwahaniaeth mawr yn y plant', meddai un athro cyn egluro na fyddai modd mesur hynny'n bendant nes i'r grŵp gyrraedd diwedd Blwyddyn 6, er nododd un bod y lefelau a ragwelir 'wedi saethu lan'.

3.9 Nododd yr athrawon bod brwdfrydedd ac agwedd disgyblion wedi gwella a'u bod yn gallu synhwyro eu bod wedi gwneud cynnydd gyda'u Cymraeg, er enghraifft: 'byddai fy nisgyblion o hyd yn nodi mai Cymraeg oedd eu pwnc gwanaf yn eu harfarniad diwedd blwyddyn. Wnaeth neb nodi hynna llynedd'. Rhoddwyd enghreifftiau ymarferol o'r gwelliant hefyd: 'Mae'r lefel yn uwch, byddwn byth wedi defnyddio ffurf gorffennol o'r blaen gyda Blwyddyn 3 ond yn gwneud hynny nawr drwy'r amser'.

3.10 **Codwyd cwestiynau gan yr athrawon am gynaladwyedd y gwelliannau.** Er bod penaethiaid yn gefnogol i'r prosiect mewn egwyddor, eglurodd yr athrawon bod y Gymraeg wedi derbyn llai o bwyslais strategol yng nghyfnod y prosiect gan fod cymaint o flaenoriaethau eraill gan yr ysgol. Eglurodd dwy ysgol fod y Gymraeg wedi disgyn allan o'r rhestr blaenoriaethau yn eu cynllun datblygu ysgol (cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella). Nid oedd yr athrawon yn hyderus chwaith y byddai'r gwaith da yn cael ei gynnal wedi i'r dysgwyr bontio i'r uwchradd, a holodd un, 'beth fydd yn digwydd yn yr ysgol uwchradd gan fydd yna amrywiaeth lefelau iaith? A fydd y lefel [uwch] yn cael ei chynnal'?

## 4. Casgliadau

4.1 Yn yr ysgolion fu'n rhan o'r astudiaeth hon mae'r prosiect peilot wedi cyrraedd y nod o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn benodol:

- Mae tystiolaeth bod yr athrawon yn cynnig mwy o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn fwy hyderus wrth wneud hynny.
- Gwelwyd sawl enghraifft o gyfnewid tasg neu weithgaredd a arferai fod yn gyfrwng Saesneg gydag un cyfrwng Cymraeg.
- Nododd yr athrawon fod geirfa eu dysgwyr wedi ehangu, a bod eu hyder a safon eu Cymraeg wedi gwella o ganlyniad i'r prosiect.

4.2 O blith yr athrawon a gyfrannodd at yr astudiaeth hon cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cyrsiau a'r adnoddau a ddarperir drwy'r prosiect.

4.3 Gan edrych i'r dyfodol ymddengys y bydd cynnal y gwelliannau yn her gan nad oes tystiolaeth fod y prosiect yn cael fawr o ddylanwad ar gynllunio ar lefel ysgol. Ar hyn o bryd mae llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar frwdfrydedd athrawon unigol. Byddai mynnu mewnbwn gan reolwyr wedi bod yn fodd o glymu'r prosiect yn agosach at gynllunio lefel ysgol.

4.4 Un o'r heriau nesaf, pan fydd y prosiect wedi cwmpasu CA2 i gyd, yw cydweithio agos gyda'r sector uwchradd er mwyn cynnal y gwelliannau canfyddedig i sgiliau Cymraeg a diddordeb y dysgwyr.

Awduron yr Adroddiad: Arad

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 20 825 720
Ebost: catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 19 Ionawr 2016

ISBN: 978-1-4734-574-7
© Hawlfraint y Goron 2016

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/